

Ymateb Cymdeithas yr Iaith i Ymgynghoriad ar Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Ymgymmerwyr Dŵr a Charthffosiaeth)

Cyflwyniad

Mae Cymdeithas yr Iaith yn fudiad sydd wedi bod yn ymgyrchu'n ddi-drais dros y Gymraeg a holl gymunedau Cymru ers dros 60 mlynedd.

Er bod y Safonau drafft newydd wedi eu newid rywfaint yn unol â sylwadau i'r ymgynghoriad ar y Safonau blaenorol, mae sawl peth a godwyd gennym yn ystod yr ymgynghoriad blaenorol sydd heb eu cynnwys, sy'n golygu na fydd pobl Cymru yn cael y gwasanaethau Cymraeg y dylent ei gael.

Mae'n bwysig nodi hefyd, wrth osod Safonau ar gyrff, bod angen pwysleisio a bod yn glir mai isafswm yw'r Safonau, nid uchafswm i anelu i'w gyflawni. Ar hyn o bryd, mae nifer o gyrff yn trin y Safonau fel rhywbeth i gyrraedd atynt, heb fynd dim pellach. Mae gwir angen newid y meddylfryd hwnnw.

Sylwadau

Gohebiaeth

Anghytunwn â chyfyngu safonau 2 a 4 i "ohebiaeth sydd wedi ei chynhyrchu gan system" yn unig. Mae angen safonau sy'n cwmpasu pob gohebiaeth pa un ai ydy wedi ei chynhyrchu gan system ai peidio.

Anghytunwn yn ogystal gyda'r cyfyngu ar ystyr 'gohebiaeth' a wneir ym mharagraff 29 ar dudalen 30 y rheoliadau. Ni ddylid cyfyngu'r ohebiaeth i 'filiau, ceisiadau am ddarlleniadau mesuryddion, gohebiaeth ynghylch cyfrifon newydd a gohebiaeth ynghylch cau cyfrifon' yn unig. Eto, nid oes angen i'r rheoliadau fod mor benodol â hynny. Os oes rhaid addasu neu amrywio, gallai'r Comisiynydd wneud hynny drwy'r hysbysiad cydymffurfio, ar ôl cael tystiolaeth gan gyrff unigol.

Os yw'r Llywodraeth yn mynnu cyfyngu ystyr gohebiaeth i "ohebiaeth sydd wedi ei chynhyrchu gan system", awgrymwn y dylid newid geiriad paragraff 29 i:

"At ddibenion safonau 2 a 4 ystyr "gohebiaeth sydd wedi ei chynhyrchu gan system" yw gohebiaeth sy'n cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, filiau, ceisiadau am ddarlleniadau mesuryddion, gohebiaeth ynghylch cyfrifon newydd a gohebiaeth ynghylch cau cyfrifon."

Fel arall, mae perygl go iawn y bydd y rheoliadau yn gadael mannau gwan di-angen ac anfwriadol o ran darparu gohebiaeth yn Gymraeg.

Ymhellach, credwn y dylai fod modd i unrhyw un newid dewis iaith gohebiaeth ar unrhyw bryd a bod disgwyl i gwmnïau wneud hynny'n glir a didrafferth, er mwyn i unrhyw un sy'n dymuno cael gohebiaeth Gymraeg yn y dyfodol wneud hynny.

Galwadau Ffôn

Anghytunwn yn gryf â'r penderfyniad i ddileu nifer o'r Safonau lefelau uwch ar gyfer darparu gwasanaethau ffôn yn Gymraeg, megis Safonau 18 i 21 a gynhwyswyd yn Safonau'r Gymraeg (Rhif 1).

Yn ystod proses lunio Safonau drafft 2017, fe wnaeth dau gwmni ddweud bod cynnwys y Safonau yma yn rhesymol a chymesur wrth roi tystiolaeth i'r Comisiynydd.

Roedd Dŵr Cymru o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy o'r farn y byddai gwneud safonau 10–13, 15, 18–20 a 22 yn gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Felly, unig ganlyniad peidio cynnwys y Safonau lefel uwch yw creu perygl o leihau darpariaeth Gymraeg rhai cwmnïau oherwydd pryderon cwmnïau eraill sydd heb fod yn eu darparu yn y gorffennol. Eto, mae hyn yn enghraifft o wanhau Safonau'n ddiangen.

Anghytunwn hefyd gyda chyfyngu'r hawl i wasanaeth ffôn i linellau sy'n ymwneud â chyfrifon neu gymorth. Credwn fod y cyfyngiadau hyn yn gwanhau hawliau iaith pobl ac yn creu perygl o greu mannau gwan anfwriadol petai cwmnïau yn ailstrwythuro gwasanaethau.

Safonau ynghylch corff yn llunio dogfennau

Dydy Safon 40, 41 42, 43 a 44, a oedd wedi eu cynnwys yn Safonau'r Gymraeg (Rhif 1), ddim wedi eu cynnwys yn y rheoliadau yma.

Byddent yn gallu sicrhau bod holl ddogfennaeth corff, neu o leiaf ragor o'i ddogfennaeth, yn Gymraeg. Credwn y dylid cynnwys y Safonau hyn yn y Rheoliadau.

Wrth i'r Comisiynydd baratoi Safonau 2017, dywedodd dau gwmni y byddai gwneud y safonau hyn yn gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur, tra bod cwmni arall yn dweud y byddai'n medru cydymffurfio â rhai o'r safonau dan sylw.

Dim ond un o'r pedwar cwmni dŵr a ddadleuodd fod y Safonau, megis Safon 40, yn afresymol. Felly, drwy beidio eu cynnwys, mae'r Llywodraeth yn amddifadu pobl o'r hawl i gael nifer o ddogfennau yn Gymraeg er bod y cwmnïau eu hunain yn meddwl bod y Safonau'n rhesymol.

Ymhellach, mae eithriad 36 yn datgan:

Nid yw safonau 27 ac 28 [sy'n ymwneud â dogfennau] yn gymwys i unrhyw ddeunydd hysbysebu a gynhwysir mewn dogfen, llyfryn, taflen, pamffled neu gerdyn.

Credwn y dylai'r Safonau arfaethedig gynnwys dyletswyddau i ddarparu'r canlynol yn Gymraeg:

- unrhyw ddogfennau at ddefnydd y cyhoedd y maen nhw'n eu llunio;
- unrhyw drwydded neu dystysgrif;
- agendâu, cofnodion a phapurau eraill sydd ar gael i'r cyhoedd, sy'n ymwneud â chyfarfod o fwrdd rheoli'r cwmni a chyfarfodydd, cynadleddau neu seminarau sy'n agored i'r cyhoedd;
- unrhyw lyfryn, taflen, pamffled neu gerdyn; a
- polisïau, strategaethau, adroddiadau blynyddol a chynlluniau corfforaethol; canllawiau a chodau ymarfer; a phapurau ymgynghori

Gwefan

Anghytunwn gydag eithriad 38:

“Nid yw safonau 33 i 38 (gwefannau) yn gymwys i—

(a) dogfennau y darperir dolen iddynt ar wefan, deunydd hysbysebu ar wefan, na clipiau fideo a sain ar wefan”

Gallai hyn arwain at greu gwefan lle nad yw cynnwys Cymraeg ar gael yn yr un modd â'r Saesneg, ac felly yn trin yn Gymraeg yn llai ffafriol, ac mae'r eithriadau yn gwrth-ddweud safonau blaenorol sydd yn ymwneud â dogfennau.

Yn ogystal, mae clipiau sain a fideo yn dod yn gynyddol bwysig o ran cyfathrebu gyda'r cyhoedd, yn enwedig ar y cyfryngau cymdeithasol, a nifer ohonynt yn cael eu cynhyrchu a'u llunio gan gyrff yr un mor aml, neu'n fwy aml, na thafleini neu ddeunyddiau cyhoedduswydd eraill. Credwn felly y dylid hepgor yr eithriadau.

Sgwrsio ar-lein

Anghytunwn ag eithriad 41:

“Nid yw safon 40 (cyfleuster sgwrsio byw) yn gymwys i ddogfennau y darperir dolen iddynt drwy'r cyfleuster sgwrsio byw, nac i glipiau fideo a sain a ddarperir drwy'r cyfleuster sgwrsio byw.”

Mae hyn am yr un rheswm â'n gwrthwynebiad i eithriad 38 ynglŷn â'r wefan.

Apiau

Croesawn gynnwys apiau yn narpariaeth y Safonau. Wrth i apiau ddod yn fwyfwy poblogaidd, bydd o gymorth i normaleiddio'r Gymraeg mewn datblygiadau technolegol.

Er hynny, anghytunwn ag eithriad 39 (1):

“Nid yw safon 39 yn gymwys i unrhyw ddeunydd hysbysebu ar ap (gweler safon 24 mewn perthynas â deunydd hysbysebu a lunnir gan gorff).”

Dyfarnu Grantiau

Credwn y dylid cynnwys dyletswyddau ychwanegol ynghylch tendro a dyfarnu grantiau yn y rheoliadau, yn enwedig o ystyried nad oes modd gosod 'Safonau Llundain Polisi' ar y cwmnïau hyn. Byddai modd geirio'r dyletswyddau fel bod modd sicrhau grantiau a chontractio sy'n gweithredu o blaid y Gymraeg i'r eithaf. Gall y Comisiynydd asesu rhesymoldeb y Safonau hyn drwy'r broses o osod hysbysiad cydymffurfio.

Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff

Credwn fod Safonau 47-49 yn gwrth-ddweud Safon 46. Mae Safon 46 yn dweud yn glir y dylai unrhyw wasanaeth derbynfa sydd ar gael yn Saesneg hefyd fod ar gael yn Gymraeg, ac na ddylai aelod o'r cyhoedd sydd am gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg gael eu trin yn llai ffafriol na pherson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg.

Er hynny, mae Safon 47 yn nodi bod rhad i unigolion ddweud eu bod yn dymuno gwasanaeth yn Gymraeg, lle nad yw hynny ar gael, er mwyn i wasanaeth Cymraeg gael ei drefnu. Tra bod Safon 48 yn dweud:

“Os nad oes gwasanaeth derbynfa wyneb yn wyneb Cymraeg ar gael yn eich derbynfa, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth derbynfa yn Gymraeg ar gael dros ffôn yn eich derbynfa.”

Gallai hyn olygu oedi wrth ymdrin ag ymholiad derbynfa yn Gymraeg.

Recriwtio, Hyfforddiant

Yn adroddiad cyntaf yr ymchwiliad i osod Safonau ar gwmnïau dŵr a charthffosiaeth, argymhellodd y Comisiynydd yn glir y dylid ychwanegu Safonau yng nghategori 'Safonau Cyflenwi Gwasanaethau' ynghylch recriwtio a hyfforddiant gan nad oes modd gosod 'Safonau Gweithredu' ar y cyrff hyn. Byddai hepgor dyletswyddau o'r fath yn gam yn ôl ar y cynlluniau iaith.

Cytunwn â sylwadau'r Comisiynydd yn adroddiad ei ymchwiliad:

“...gall peidio â sicrhau cydymffurfiaeth ym meysydd megis recriwtio ac apwyntio a meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi gweithluoedd gael effaith andwyol ar allu'r personau hynny i hwyluso gweithrediad y safonau cyflenwi gwasanaethau hynny sydd yn gymwysadwy iddynt ar hyn o bryd.

“Casgliad 1: Wrth ystyried pennu safonau mewn rheoliadau ar gyfer personau a ddaw o fewn Atodlen 8 y Mesur, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau na chaiff ymrwymadau ac arferion presennol sydd yn cyfateb i'r safonau gweithredu eu colli yn rhinwedd unrhyw ddyletswyddau newydd o dan y drefn safonau. Dylid ystyried er enghraifft y posibilrwydd o gynnwys gofynion am recriwtio a hyfforddi o dan safonau sy'n ymdrin â materion atodol, neu drwy ddulliau eraill.”

Gofynnwn i'r Llywodraeth ailystyried sut i sicrhau bod rhai dyletswyddau ynghylch recriwtio a hyfforddiant, sy'n uniongyrchol berthnasol i allu corff i ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd, yn cael eu hychwanegu i'r rheoliadau drafft hyn.

Hawliau Gweithwyr

Does dim byd o gwbl wedi ei gynnwys yn y Safonau am hawliau gweithwyr. Mae Safonau 99-120 yn Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) yn gosod disgwyliaid o ran ffurflenni a dogfennau staff, prosesau mewnol, arwyddion yn y gwaith a darpariaeth fel cysill.

Credwn y dylai fod yr un ddarpariaeth yn gymwys i gwmnïau dŵr a charthffosiaeth, nid yn unig er budd gweithwyr ond er mwyn creu awyrgylch Cymraeg fydd yn hwyluso defnydd ac yn normaleiddio'r Gymraeg.

Casgliadau

Ymddengys fod nifer o'r Safonau yn eu ffurf bresennol yn groes i nifer o argymhellion adroddiad ymchwiliad y Comisiynydd cyn paratoi Safonau drafft 2017, yn groes i amcanion polisi Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac yn groes i bolisiâu'r Llywodraeth ynghylch adeiladu ar gynlluniau iaith a chynnig gwell gwasanaethau Cymraeg.

Credwn nad yw'r Llywodraeth wedi rhoi sylw dyladwy i adroddiad y Comisiynydd fel sy'n ofynnol o dan adran 66, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a bod angen gwneud hynny yn hytrach na gwanhau'r Safonau'n sylweddol a hynny'n ddi-sail.

Er mwyn sicrhau nad yw dewis defnyddio'r Gymraeg yn golygu anfantais i bobl Cymru, mae'n rhaid i bobl gael gwybodaeth a gwasanaeth cwrtais, prydlon, cywir, eglur a chyflawn ym mhob ffordd.

**Grŵp Hawl i'r Gymraeg, Cymdeithas yr Iaith
Ebrill 2023**